# Eisteddfod Gadeiriol y Felinheli

I'w chynnal yn Neuadd Goffa'r Felinheli
Dydd Sadwrn 1 Chwefror, 2025

Cyfarfod y Dydd i ddechrau am 11.30 o'r gloch
Cyfarfod y Nos i ddechrau am 5.30 o'r gloch

**Mynediad:**
**Prynhawn:** £3 i oedolion, 50c i blant
**Nos:** £3 i oedolion, 50c i blant
Bydd lluniaeth ysgafn ar gael am bris rhesymol.

Aelod o Gymdeithas Eisteddfodau Cymru

CYMDEITHAS EISTEDDFODAU CYMRU

# Beirniaid, Llywyddion a Swyddogion

**Cerdd:** Iwan Wyn Williams, Llandwrog
**Llefaru:** Anni Llŷn, Garn Fadryn
**Llenyddiaeth:** Rhys Iorwerth, Caernarfon
**Celf a Chrefft:** Gareth a Nerys Jones, Y Felinheli

**<u>Cyfeilyddion</u>**

**Prynhawn:** Awel Glyn, Y Felinheli
**Nos:** Steven John Evans-Justice, Caernarfon

**<u>Arweinyddion:</u>**

Elenid Glyn
Gareth Griffith
Mari Emlyn
Nerys Lewis
Tudur Owen

**<u>Llywyddion:</u>**

**Prynhawn:** Ieuan Roberts, Y Felinheli
**Nos:** Siân Gwenllian AS, Y Felinheli

**<u>Swyddogion:</u>**
**Cadeirydd:** Catrin Gwenllian, Y Felinheli
**Trysorydd:** Nia Medi, Y Felinheli
**Swyddog Cyfathrebu:** Osian Owen, Y Felinheli
**Ysgrifennydd:** Elen Gwenllïan, 13 Glan y Môr, Y Felinheli, LL56 4RQ.
**E-bost:** eisteddfodfelinheli@gmail.com

## Celf a Chrefft

Bydd gwaith enillwyr yn yr adran Celf a Chrefft yn cael ei arddangos yng **Nghapel Bethania, Y Felinheli** ar ddiwrnod yr Eisteddfod.

# Cyfarfod y Dydd

## Cerddoriaeth

1. Unawd Bl. Derbyn ac iau – Hunanddewisiad - *Medal a £4, £3, £2*

2. Unawd Bl.2 ac iau – Y Lili Wen Fach, Daniel Protheroe - *Medal a £5, £4, £3*

3. Unawd Bl. 3 a 4 – Hufen Iâ, Beti Rhys - *Medal a £6, £5, £4*

4. Unawd Bl. 5 a 6 – Y Gwanwyn, Rhys Jones - *Medal a £6, £5, £4*

5. Deuawd Bl. 6 ac iau – Lluniau'r Tymhorau, Leah Owen - *Medal a £12, £10, £6*

6. Parti Bl. 6 ac iau (*dim mwy na 12 mewn nifer*) - Hunanddewisiad - *£15, £12, £10*

7. Côr Bl. 6 ac iau (*dros 12 mewn nifer*) - Hunanddewisiad - *£15, £12, £10*

8. Unawd Alaw Werin Bl. 6 ac iau – Hunanddewisiad - *Medal a £6, £5, £4*

9. Unawd Cerdd Dant Bl. 6 ac iau – Hunanddewisiad - *Medal a £6, £5, £4*

10. Unawd Piano Bl. 6 ac iau - Hunanddewisiad, heb fod yn hirach na 3 munud - *Medal a £6, £5, £4*

11. Unawd Offerynnol Bl. 6 ac iau - Hunanddewisiad, heb fod yn hirach na 3 munud - *Medal a £6, £5, £4*

12. Unawd Bl. 7, 8 a 9 – Gwisgoedd Nef, Karl Jenkins neu Nant y Mynydd, D. Vaughan Thomas - *£12, £10, £8*

13. Unawd Alaw Werin Bl. 7, 8 a 9 - Hunanddewisiad - *£12, £10, £8*

14. Unawd Cerdd Dant Bl. 7, 8 a 9 Hunanddewisiad - *£12, £10, £8*

15. Unawd Piano Bl. 7, 8 a 9- Hunanddewisiad, heb fod yn hirach na 3 munud - *£12, £10, £8*

16. Unawd Offerynnol (*ac eithrio'r piano*) Bl. 7, 8 a 9 - Hunanddewisiad, heb fod yn hirach na 3 munud - *£12, £10, £8*

## Llefaru

17. Llefaru Bl. Derbyn ac iau – Hunanddewisiad - *Medal a £4, £3, £2*

18. Llefaru Bl. 2 ac iau – Cwyn y Ci, Ceri Wyn Jones - *Medal a £5, £4, £3*

19. Llefaru Bl. 3 a 4 – Mae'r Byd, Fel Mae, Yn Well, Mererid Hopwood - *Medal a £6, £5, £4*

20. Llefaru Bl. 5 a 6 – Rwy'n Gwybod, Meirion MacIntyre Huws - *Medal a £6, £5, £4*

21. Parti Llefaru Bl. 6 ac iau – Pen i Waered, Dewi Pws - *£15, £12, £10*

22. Llefaru Bl. 7, 8 a 9 – Draig Wen, Draig Goch, Myrddin ap Dafydd - *£12, £10, £8*

**Rhybudd:**

Cyn cystadlu, dylai'r holl gystadleuwyr sicrhau eu bod wedi darllen yr holl amodau.

## Cyfarfod y Nos

### Cerddoriaeth

23. Unawd Bl. 10 – 13 – Hunanddewisiad - *£15, £12, £10*

24. Unawd Alaw Werin Bl. 10 – 13 – Hunanddewisiad - *£15, £12, £10*

25. Unawd Cerdd Dant Bl. 10 – 13 – Hunanddewisiad - *£15, £12, £10*

26. Unawd Piano Agored – Hunanddewisiad, heb fod yn hirach na 7 munud - *£20, £15, £10*

27. Unawd Offerynnol Agored – Hunanddewisiad, heb fod yn hirach na 7 munud - *£20, £15, £10*

28. Deuawd Agored – Hunanddewisiad - *£30, £20, £10*

29. Ensemble Agored (*rhwng 3 ac 8 mewn nifer*) – Hunanddewisiad - *£40, £30, £20*

30. Unawd allan o Sioe Gerdd Agored – Hunanddewisiad - *£30, £20, £15*

31. Unawd Alaw Werin Agored – Hunanddewisiad - *£25, £15, £10*

32. Unawd Cerdd Dant Agored – Hunanddewisiad - *£25, £15, £10*

33. Unawd Gymraeg Agored – Hunanddewisiad - *£40, £30, £20*

34. Canu Emyn Agored - Unrhyw emyn allan o Caneuon Ffydd - *£20, £15, £10*

35. Prif Unawd – Hunanddewisiad - *£50, £40, £30*

36. **Cystadleuaeth Gorawl Cymdeithas Eisteddfodau Cymru** – côr o unrhyw gyfuniad o leisiau heb fod yn llai na 20 mewn nifer, i gyflwyno rhaglen o gerddoriaeth hunanddewisiad, heb fod yn hirach na 10 munud, ac i gynnwys darn gan gyfansoddwr o Gymro. Gellid hefyd defnyddio trefniant o alaw werin Gymreig gan gyfansoddwr o Gymro - *£200, £150, £100*

### Llefaru

37. Llefaru Bl. 10 – 13 – Hunanddewisiad - *£15, £12, £10*

38. Darllen darn heb ei atalnodi ar y pryd - *£25 i'w rannu*

39. Llefaru Digri – Hunanddewisiad - *£20, £15, £10*

40. Monolog Agored – Hunanddewisiad, heb fod yn hirach na 8 munud - *£30, £20, £15*

41. Parti Llefaru – Hunanddewisiad - *£60, £40, £30*

42. Prif Adroddiad – Hunanddewisiad, heb fod yn hirach na 8 munud - *£50, £40, £30*

**Cystadleuaeth Mewn Cymeriad**
**16-25 oed**

Cystadleuaeth Perfformio Cymdeithas Eisteddfodau – cyfle i unigolyn bortreadu un o gymeriadau enwog Cymru, yn seiliedig ar gyflwyniadau gwreiddiol **Cwmni Mewn Cymeriad**.

*Sgriptiau ar gael ar wefan* ***www.steddfota.cymru***

**1af** £20
**2il** £15
**3ydd** £10

CYMDEITHAS EISTEDDFODAU CYMRU

# Gwaith cartref

## Barddoniaeth

44. Blwyddyn 6 ac iau - Cerdd am y Felinheli - *£5, £4, £3*

45. Dan 18 mlwydd oed - Cerdd yn ymwneud â'r amgylchedd neu fyd natur - *£15, £12, £8*

46. Dan 25 mlwydd oed - Ysgrifennu cân am y Felinheli - *£20*

47. Limrig ar y diwrnod – Llinell gyntaf i'w rhannu wythnos yr Eisteddfod - *£10*

48. Englyn ar y testun 'diwydiant' – Caniateir ymdrechion cywaith gan glybiau a chymdeithasau sy'n hyrwyddo dysgu'r gynghanedd - *£20*

49. Telyneg – Camau - *£20*

50. Cystadleuaeth y Gadair- Cerdd neu gyfres o gerddi caeth neu rydd hyd at 100 llinell ar y testun 'llif' – *Cadair fechan a £50*

## Rhyddiaith

51. Blwyddyn 2 ac iau - Llun a stori - Diwrnod arbennig - *£4, £3, £2*

52. Blwyddyn 2–6 - Stori - Diwrnod arbennig - *£5, £4, £3*

53. Dan 18 mlwydd oed - Ymson unrhyw berson enwog - *£15, £12, £8*

54. Brawddeg o'r llythrennau FELIN – agored o ran oed - *£20*

55. Stori fer ar y testun 'fan hyn' – agored o ran oed - £20

56. Erthygl fer am y Felinheli - agored o ran oed. Bydd yr erthygl fuddugol yn cael ei chynnwys yn rhaglen yr Eisteddfod - *£20*

57. Tlws yr Ifanc dan 25 mlwydd oed (*Cystadleuaeth Eisteddfodau Cymru.*) Darn neu ddarnau o farddoniaeth (hyd at 50 llinell), neu ddarn neu ddarnau o ryddiaith ar unrhyw ffurf (hyd at 2,000 o eiriau). Ar y testun 'môr.' *Tlws a £30*

58. Tlws y Dysgwyr – Proffil ohonoch chi eich hun ar gyfer *Goriad* a *BangorFelin360* – *Tlws a £30*

59. Cystadleuaeth Cyfieithu – Darn gosod gan fusnes lleol. Gweler yr amodau - *£30*

# **Celf a Chrefft**

***Thema i bob oedran: Fy Nghynefin/Fy Nghartref***

Unrhyw gyfrwng gan gynnwys ffotograffiaeth ac eithrio AI. Y gwaith i gynnwys delweddau, gweithgareddau, cymeriadau, golygfeydd a bywyd natur lleol. Anogir cystadleuwyr i fynd allan ac edrych o gwmpas yr ardal leol am ysbrydoliaeth.

58. Blwyddyn Derbyn ac Iau - *£4, £3, £2*

59. Bwyddyn 1 a 2 - *£4, £3, £2*

60. Blwyddyn 3 a 4 - *£5, £4, £3*

61. Blwyddyn 5 a 6 - *£5, £4, £3*

62. Blwyddyn 7, 8, 9 - *£10, £8, £6*

63. Agored - *£20*

## Amodau Cyffredinol

1. Mae'r holl destunau'n agored i'r byd.

2. Rhaid i ymgeiswyr fod yn aelodau o'r Flwyddyn Ysgol berthnasol ar ddiwrnod yr Eisteddfod. Lle mae ystod oedran wedi ei nodi, at oed yr ymgeisydd ar ddiwrnod yr Eisteddfod yr ydym yn cyfeirio.

3. Mae hawl gan y Beirniad i atal neu rannu gwobrwyon, oni nodir yn wahanol.

4. Ni chaniateir gwrthdystiad cyhoeddus yn yr Eisteddfod.

5. Mae barn y Pwyllgor yn derfynol ymhob achos.

6. Ni ellir dal y Pwyllgor yn gyfrifol am unrhyw gynhyrchion sy'n cael eu hanfon i'r Eisteddfod.

7. Cymraeg fydd iaith unrhyw berfformiad llafar/lleisiol.

8. Ni chaniateir i neb gyflwyno yr un darn mewn mwy nag un gystadleuaeth.

9. Rhaid i bob cystadleuydd ofalu am gopi i'r beirniad a'r cyfeilydd.

10. Ni fydd y pwyllgor yn gyfrifol am unrhyw ddamwain na cholled yn gysylltiedig â'r Eisteddfod.

**Amodau Arbennig Cerddoriaeth**

11. Mae'n rhaid i'r cystadleuwyr mewn cystadlaethau hunanddewisiad yng nghyfarfod y dydd a chyfarfod y nos gysylltu neu anfon copi o'u darnau i'r **Ysgrifennydd erbyn 25 Ionawr - Elen Gwenllïan, 13 Glan y Môr, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4RQ neu eisteddfodfelinheli@gmail.com**.

12. Y cyfeilyddion swyddogol yn unig sydd â chaniatâd i gyfeilio, ac eithrio i bartïon a chorau – disgwylir iddynt drefnu eu cyfeilyddion eu hunain.

13. Ar ddechrau'r cystadlaethau Cerdd a Cherdd Dant, mae'n ofynnol i'r ymgeiswyr gyflwyno copi o'r cyfeiliant neu'r alaw mewn hen nodiant a chyweirnod cywir i'r cyfeilydd.

**Amodau Arbennig Llenyddiaeth**

14. Mae'n rhaid i'r holl waith llenyddol fod yn Gymraeg.

15. Ni ddylai unrhyw ymgais lenyddol fod wedi bod yn fuddugol yn yr Eisteddfod hon o'r blaen.

16. Ni chaniateir unrhyw ddefnydd o AI.

17. Yr holl gyfansoddiadau llenyddol i fod yn llaw **yr Ysgrifennydd, Elen Gwenllïan, 13 Glan y Môr, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4RQ erbyn dydd Sadwrn, 18 Ionawr, 2025.** Dalier sylw: Ni fydd yr eisteddfod yn gallu dychwelyd y gwaith gyda chopi o'r feirniadaeth oni fydd yr ymgeiswyr wedi darparu amlen wedi'i stampio a'i chyfeirio.

18. Yng nghystadlaethau'r Gadair a Thlws yr Ifanc, disgwylir i'r buddugol fod ar gael ar ddiwrnod yr Eisteddfod.

20. Dylid nodi ffugenw yn unig ar waith sy'n cael ei anfon. Dylid rhoi'r enw priodol, y cyfeiriad, cyfeiriad e-bost a rhif ffôn mewn amlen dan sêl, gyda'r ffugenw a theitl y gystadleuaeth oddi allan. ONI CHEDWIR YN FANWL AT Y RHEOL HON, NI FYDD Y CYNHYRCHION YN CAEL EU HANFON AT Y BEIRNIAD.

21. Cedwir hawl gan y Pwyllgor i gyhoeddi detholiad o’r cynhyrchion.

22. Cystadleuaeth Cyfieithu – Bydd yr Eisteddfod yn cydweithio â busnes lleol ac yn gosod darn mae un o’r busnesau hyn yn awyddus iddo gael ei gyfieithu er mwyn annog busnesau lleol i ddefnyddio’r Gymraeg. Dylid cysylltu ar **eisteddfodfelinheli@gmail.com** i gael copi o’r darn.

**Amodau Arbennig Celf a Chrefft**

20. **Holl gynnyrch yr Adran hon i gyrraedd Capel Bethania rhwng 9 a 10 o'r gloch FORE SADWRN, 1 Chwefror, 2025**

23. Bydd y beirniadu'n dechrau'n brydlon am 10.30 o'r gloch.

24. Rhaid i gystadleuwyr gasglu eu cynnyrch o’r Capel rhwng 3:30 a 4:30 o’r gloch ar ddiwrnod yr Eisteddfod.

**Cystadlaethau Cymdeithas Eisteddfodau Cymru:** Ar gyfer cystadlaethau Cymdeithas Eisteddfodau Cymru (rhif 36, 43 a 57) dylai cystadleuwyr gyfeirio at delerau ac amodau y Gymdeithas ar eu gwefan.

Williams

Diolch i Williams Homes y Bala am fod yn brif noddwyr i'r Eisteddfod

Eisteddfod Y Felinheli